Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Bro Plenydd
Y Ffôr
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6UP

13/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Plenydd yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion

- Mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth glir i wella medrau darllen Saesneg disgyblion.
- Maent wedi sefydlu diwylliant cryf o ddarllen yn yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ysgogol a diddorol i ddatblygu eu medrau darllen Cymraeg a Saesneg yn rheolaidd. Mae ymdeimlad o gariad at lyfrau a darllen yn treiddio trwy holl waith yr ysgol.
- Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn llyfrau ac adnoddau sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion mewn testunau amrywiol yn effeithiol.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau dewis llyfrau i'w darllen sy'n cysylltu'n bwrpasol â'u themâu a'u diddordebau. Mae'r disgyblion hŷn yn mwynhau ymgymryd â'u gweithgareddau darllen dyddiol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys darllen ystod eang o destunau ffuglen a ffeithiol.

- Mae arweinwyr wedi cydweithio â phartneriaid i ddatblygu rhaglenni pwrpasol i gefnogi datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent wedi rhannu'r arferion mwyaf effeithiol gyda'r staff er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Saesneg.

## Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu yn fwy annibynnol

- Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu yn fwy annibynnol. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar ddarparu profiadau cyfoethog a phwrpasol sy'n meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion ar draws yr ysgol yn llwyddiannus.
- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff, fel cydweithio ag ysgolion cyfagos, i rannu syniadau ac arferion effeithiol. Mae hyn yn cefnogi hyder a gallu staff i ddarparu profiadau dysgu difyr ac ysgogol sy'n hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn fwriadus, ar y cyfan.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau dysgu annibynnol o oedran cynnar. Er enghraifft, maent yn dewis offer priodol i gefnogi eu dysgu yn annibynnol ac yn cofnodi canlyniadau eu ymholiadau trwy gyfrwng sydd o'u dewis eu hunain.
- Mae'r disgyblion hynaf yn cynnig syniadau ystyrlon ynghylch yr hyn y maent yn dymuno ei ddysgu yn eu gwaith thematig. Maent yn trafod eu profiadau dysgu yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau doeth o ran sut i gwblhau eu tasgau a chyflwyno eu gwaith. Maent yn cynnig rhesymau aeddfed i gefnogi eu dewisiadau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612048

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol